

VTCT Diploma mewn Adweitheg ar gyfer y Therapydd Cyflenwol Lefel 4



Yn gwyno

Bydd y cymhwyster hwn yn eich galluogi chi i ychwanegu technegau ychwanegol at y triniaethau yn eich repertoire presennol wrth ddatblygu ymhellach eich gwybodaeth am y damcaniaethau a'r arferion cymhwyso adweitheg ar lefel uwch.

Cynlluniwyd y cymhwyster hwn i roi'r wybodaeth hanfodol i'ch cynorthwyo chi i ddarparu sgiliau therapiwtig uwch mewn lleoliad clinigol.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

y rheini sy'n therapyddion cyflenwol cymwys
y rheini sydd yn meddu ar gymhwyster Lefel 3 neu gymhwyster cyfatebol mewn Adweitheg gan gynnwys Anatomeg a Ffisioleg.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cynnwys y cwrs

Yn ystod y cwrs hwn byddwch yn astudio technegau adweitheg uwch gorfodol gan gynnwys llaw, clust, wyneb, adweitheg mamolaeth ar bob cam, ffrwythlondeb, y naw mis o feichiogiad a'r cyfnod ar ôl beichiogrwydd, gofal lliniarol a chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd, rheoli poen, darllen traed a dehongliadau emosiynol a thechnegau arbenigol eraill. Byddwch chi'n astudio ystod o gymwysiadau megis adweitheg feridian, technegau therapi parthau i facsimeiddio dealltwriaeth a manwl gywirdeb mewn arferion gweithio.

Mae'r unedau a gwmpesir yn cynnwys:

Sgiliau rhyngbersonol
Anatomeg a Ffisioleg Uwch
Technegau Adweitheg Uwch

Cynlluniwyd y cymhwyster hwn i arwain cyflogaeth mewnamrywiaeth o rolau, naill ai'n hunangyflogedig, mewn clinig therapi cyflenwol, cyfleusterau harddwch neu sba neu bractis preifat. Gall y cymhwyster hwn hefyd arwain at gyflogaeth mewn ysbyty, hosbis neu amgylcheddau gofal iechyd eraill.

Cynhelir asesiad trwy bortffolio o dystiolaeth, arsylwadau ymarferol ac astudiaethau achos (cofnod o 36 triniaeth).

Gofynion Mynediad

Rhaid i chi fod yn therapydd cyflenwol cymwysedig ar Lefel 3.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd yn ofynnol i chi wisgo gwisg clinig ac esgidiau addas.

Mae'r ffioedd cwrs yn cynnwys ffioedd dysgu a chofrestru. Mae'r ffioedd tiwtoriaeth yn ddyledus ar adeg archebu/ymrestru. Os bydd angen, gall hyn fod trwy ddebyd uniongyrchol, dros bum rhandaliad. Os yw eich cyflogwr yn ariannu eich cwrs, bydd angen cadarnhad o hyn mewn ysgrifen i'r coleg allu gwneud trefniadau i'w anfonebu.

Mae'n hanfodol eich bod yn gallu darparu cleientiaid addas fel astudiaethau achos ar gyfer eich



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

asesiadau.

Manteision Masnachol a Busnes

Mae triniaeth adweitheg yn costio rhwng £50 a £75 yr awr a llai os ydych yn cynnig cwrs o driniaethau.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

